Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad

**Cylch Meithrin Awel y Mynydd**
**Ysgol Awel y Mynydd**
**Rhodfa Ronald**
**Cyffordd Llandudno**
**Conwy**
**LL31 9EU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/03/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Awel y Mynydd. Mae'r lleoliad yn cwrdd dros dro mewn ystafell ar safle Ysgol Awel y Mynydd yng Nghyffordd Llandudno yn awdurdod lleol Conwy.

Mae'r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy i bedair oed, pum diwrnod yr wythnos. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 27 o blant fesul sesiwn. Yn ystod yr arolygiad, roedd 11 o blant yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.

Saesneg yw prif iaith yr aelwyd i bron pob plentyn yn y lleoliad. Nid oedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad yn ystod yr arolygiad. Mae pedwar aelod o staff profiadol a chymwysedig yn gweithio yn y lleoliad ac un gwirfoddolwr. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2008.

Agorwyd y lleoliad ar ei safle presennol ym mis Medi 2016. Cyn hyn, roedd y lleoliad yn gweithredu o dan enw Cylch Meithrin Maelgwn. Cofrestrwyd Cylch Meithrin Awel y Mynydd yn Awst 2016 gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn
- rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd
- ymddygiad bron pob plentyn yn dda
- bron pob plentyn yn dangos lefelau uchel o gymhelliant
- ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol
- ymarferwyr yn cynllunio a darparu cwricwlwm effeithiol sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant
- gan ymarferwyr wybodaeth drwyadl am allu ac anghenion pob plentyn
- ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm i greu awyrgylch hapus sy'n parchu llais y plentyn

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth gadarn sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl staff a'r rhieni
- yr arweinydd yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol
- yr arweinydd yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r holl ymarferwyr i greu ethos sy'n ofalgar, anogol ac yn rhoi gwerth ar waith tîm
- gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac maent yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn drwyadl
- yr arweinydd wedi datblygu diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu sydd bellach yn rhan annatod o waith y lleoliad
- ymarferwyr yn herio eu hunain a'u cydweithwyr yn rheolaidd yn sgil ymrwymiad tryloyw a chadarnhaol i welliant parhaus
- gan y lleoliad weledigaeth sy'n cynnwys blaengynllunio medrus ar gyfer symud i safle newydd

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i blant ddefnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i blant wneud penderfyniadau am eu dysgu er mwyn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau

A3 Monitro effaith gweithredu'r cynllun datblygu ar safonau plant

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth ddatblygu eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r mwyafrif o blant yn cychwyn y lleoliad heb fedrau Cymraeg ac maent yn gwneud cynnydd sy'n berthnasol i'w hoed wrth ddatblygu'r iaith. Mae'r mwyafrif yn deall cyfarwyddiadau dyddiol, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r iaith wrth ymateb i gwestiynau yn briodol. Gall lleiafrif enwi cynhwysion pitsa yn y Gymraeg wrth baratoi bwyd. Mae'r mwyafrif yn dechrau gwrando ar ei gilydd wrth ddilyn stori ac wrth edrych ar ffotograffau ymweliadau. Mae llawer yn dewis mynd i ddarllen o'u gwirfodd, a dangosant eu bod yn gwybod sut i drin llyfr yn gywir. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer gwneud marciau yn annibynnol gyda rheolaeth gynyddol.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir wrth addurno toes yn yr ardal chwarae rôl. Mae gan y mwyafrif ymwybyddiaeth dda o siâp ac maent yn adnabod nodweddion cylch, triongl a sgwâr wrth ganu a chreu siapiau. Mae'r mwyafrif yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth drin ystod o offer chwarae wrth gymharu maint cymeriadau mewn stori neu wrth adeiladu tŵr o frics. Mae'r mwyafrif yn medru grwpio gwrthrychau yn ôl lliw yn gywir a gall tua hanner enwi'r lliwiau yn y Gymraeg wrth bysgota yn yr ardal allanol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Gall ychydig rheoli tegan rhaglenadwy i bwrpas wrth rifo symudiadau ar fap a dewis cofnodi eu gwaith yn annibynnol ar gamera. Mae'r rhan fwyaf yn medru dilyn cyfarwyddiadau syml wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol am gyfnodau byr.

Mae ychydig blant yn dechrau datrys problemau yn dda, er enghraifft wrth baratoi llysiau. Fodd bynnag, nid yw medrau meddwl a datrys problemau plant wedi'u datblygu cystal.

Datblyga'r mwyafrif o blant fedrau corfforol da drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Gall tua hanner drin pêl gyda rheolaeth dda iawn wrth gicio, taflu a dal. Mae'r mwyafrif yn defnyddio eu medrau corfforol yn gyson i weithio ar raddfa fawr, er enghraifft wrth adeiladu tŵr Pisa neu wrth ddringo. Mae gallu'r mwyafrif i drin offer bach fel offer ysgrifennu, teganau byd bach ac offer chwarae anniben yn datblygu'n dda.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i fynd at weithgareddau yn annibynnol. Maent yn ymwybodol o'r drefn ddyddiol ac yn ymateb

yn gadarnhaol i weithgareddau cyfarwydd, er enghraifft wrth dacluso ac wrth ymgasglu ar y mat.  Mae'r mwyafrif yn medru canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnod rhesymol wrth dorri cynhwysion pitsa neu wrth arbrofi gyda sbageti.

Mae ymddygiad bron pob plentyn yn dda ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Mae bron pob plentyn yn dechrau rhannu adnoddau wrth gyd-chwarae ac yn ymdrechu i aros eu tro.  Mae bron pob plentyn yn awyddus i helpu eraill i dacluso ac maent yn deall bod hyn yn fodd i dderbyn canmoliaeth oddi wrth yr ymarferwyr.  Mae medrau cymdeithasol y plant yn datblygu'n dda wrth iddynt gyd-fwyta.  Gydag anogaeth, mae'r mwyafrif yn dweud plîs a diolch i dderbyn diod a bwyd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwenud penderfyniadau synhwyrol ar gyfer eu hunain ac yn gweithio'n dda yn annibynnol.  Maent yn ddysgwyr hyderus wrth ddewis cynhwysion ar gyfer creu pitsa neu wrth ddewis pryd mae angen gweithio yn yr ardal allanol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion i fynegi barn,er enghraifft wrth benderfynu dilyn trywydd o ddiddordeb personol neu wrth ddewis gweithgaredd dan do neu yn yr ardal allanol.  O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn dangos lefelau uchel o gymhelliant.  Mae pob plentyn yn cael y cyfle i gyfrannu at fap meddwl er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth maent eisiau dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n llwyddo i ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant.  Mae'r cynllunio manwl wedi'i addasu i anghenion y lleoliad ac yn sicrhau bod athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus.  Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio profiadau diddorol sy'n targedu anghenion y plant yn effeithiol.  Mae cyfleoedd addas i'r plant gyfrannu tuag at y cynllunio drwy awgrymu gweithgareddau perthnasol, er enghraifft wrth brynu tocyn teithio yn yr orsaf drenau.  Mae'r ymarferwyr yn cynllunio darpariaeth effeithiol sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant.  Mae'r cynllunio yn ystyried gweithdrefnau asesu'r lleoliad yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddarparu y camau neasf yn nysgu'r plant yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd.  Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu iaith yn cydnabod bod medrau plant ar lefel isel wrth cychwyn yno.  Mae ymarferwyr yn mynd i'r afael â hyn yn effeithiol trwy fodelu geiriau a brawddegau yn rheolaidd.  O ganlyniad, mae dealltwriaeth plant yn datblygu'n dda ac maent yn dechrau defnyddio geiriau cyfarwydd.  Mae rhai cyfleoedd i farcio ac i ddarllen mewn ychydig o feysydd ar draws y cwricwlwm.  Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y meysydd, gan gynnwys yn yr ardal allanol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant ddewis ystod eang o offer a'u defnyddio'n bwrpasol yn yr ardaloedd dysgu.  Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd i'r plant gofnodi eu gwaith a'u profiadau yn ddigymell wrth ddefnyddio camerâu.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarn i ddysgu am eu treftadaeth leol wrth ddysgu am gastell Conwy ac am y tŷ lleiaf yng Nghymru. Dysgant am draddodiadau Cymreig wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chreu cardiau ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen.

Mae cyfleoedd diddorol i'r plant ddatblygu eu medrau ymchwilio wrth gynnwys profiadau i astudio cylch bywyd pili pala, tyfu blodau a choginio. Maent yn datblygu eu medrau meddwl yn boddhaol, er enghraifft wrth adeiladu tŵr cam fel tŵr Pisa. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ardal dan do a'r ardal allanol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, er enghraifft wrth ddatblygu medrau cydbwyso ar astell. Mae ymweliadau gan ymwelwyr fel nyrs ac amrywiaeth o anifeiliaid anwes a'u perchnogion yn cynnig profiadau i feithrin parch at drin popeth byw gyda gofal.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, maent yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'r rhai sy'n cael eu harwain gan oedolion. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd sydd o ddiddordeb i'r plant ac sy'n hyrwyddo profiadau uniongyrchol, er enghraifft wrth arbrofi gyda, pwyso a mesur sbagetti. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac mae ganddynt berthynas bositif gyda'r plant. O ganlyniad, maent wedi datblygu awyrgylch dysgu cefnogol.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol ac wedi creu awyrgylch cefnogol sy'n canmol ac yn gwobrwyo ymddygiad positif. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda er mwyn datblygu medrau cyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn hyrwyddo brawddegau cyfarwydd drwy gyflwyno gweithgareddau dyddiol fel disgrifio'r tywydd ac enwi'r diwrnodau'r wythnos. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn herio'r plant mwy abl yn ddigon effeithiol drwy gynnig digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau.

Mae gan bob ymarferydd fewnbwn cynhwysfawr i gynllunio a gweithredu'r addysgu. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth arbennig o'r medrau sydd angen eu datblygu yn y gweithgareddau. Mae'r system o rannu cyfrifoldebau grwpiau o blant yn effeithiol, ac maent yn manteisio ar ddiddordebau ac arbenigedd ymarferwyr wrth rannu cyfrifoldebau meysydd dysgu. Defnyddir asesiadau dyddiol ynghydâ'r proffil Cyfnod Sylfaen yn gelfydd drwy gyfnod y plentyn yn y lleoliad, sy'n amlygu targedau unigolion. Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer olrhain cynnydd plant yn gadarn, yn fanwl ac yn gywir. Maent yn trafod a nodi cyflawniadau a thargedau pob plentyn yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r asesiadau yn dylanwadu'n effeithiol ar gynllunio'r cam nesaf yn nysgu'r plant er mwyn codi safonau.

Gwna'r ymarferwyr ddefnydd cyson o anogaeth i ddatblygu a gwella ymdrechion y plant wrth eu gwaith, er enghraifft wrth ddatblygu medrau taflu a dal pêl. O ganlyniad i hyn, mae'r plant yn ymwybodol o beth maent wedi'i gyflawni a sut gallant ddatblygu ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn dilyn diddordebau'r plant wrth wrando arnynt yn trafod a disgrifio'u profiadau, er enghraifft wrth astudio'r Eidal yn sgil ymweliad plentyn a diddordeb plant mewn bwydydd Eidalaidd.

Mae’r lleoliad yn hysbysu'r rheini a gofalwyr am gyflawniadau eu plant yn gyson yn ystod y flwyddyn. Maent yn darparu adroddiadau manwl a chyfarfodydd buddiol i rieni ar ddechrau ac ar ddiwedd eu cyfnod er mwyn rhannu cyflawniadau a thargedau’r plant. Yn ogystal â hyn, mae’r ymarferwyr yn rhannu asesiadau proffil ynghyd â llyfr trysor o brofiadau’r plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau’r lleoliad i hyrwyddo iechyd a lles plant yn dda. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae bron pob plentyn yn deall pwysigrwydd golchi dwylo cyn bwyta bwyd. Mae’r amser byrbryd yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i feithrin arferion cymdeithasol fel cwrteisi a rhannu.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn briodol drwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrio, dweud diolch a gweddïo. Mae’r ymarferwyr yn annog ac yn canmol ymddygiad moesol, er enghraifft wrth i blant gofalu a bod yn garedig i’w gilydd. Drwy hyrwyddo strategaethau aros tro er mwyn bod yn deg ac yn amyneddgar, mae’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant yn fedrus i datblygu’r medrau hyn. Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft wrth ddathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant ailgylchu papur a chynhwysyddion bwyd. Mae hyn yn dechrau datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r arweinydd yn gweithio’n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen. Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos ac adeiladol gyda’r rhieni er mwyn trafod cyflawniadau ac anghenion pob plentyn yn rheolaidd. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn darparu cymorth cyn gynted ag sy’n bosibl.

Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae’r drefniadaeth wrth i’r plant gyrraedd a gadael y lleoliad yn dda. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch gofalgar a chynhwysol yn bodoli o fewn y lleoliad. Mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i’r holl adnoddau a’r meysydd dysgu. Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n dda fel tîm i greu awyrgylch hapus sy’n parchu llais y plentyn. O ganlyniad, mae plant yn ymgartrefu’n gyflym ar ôl cyrraedd. Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn ac maent yn parchu a dathlu amrywiaeth. Mae’r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol wrth ddod i adnabod a gwisgo dillad traddodiadol o dros y byd fel Affrica, India a Sbaen. Mae’r plant yn meithrin ymwybyddiaeth o amrywiaeth wrth ddysgu am wahanol ddathliadau a bwydydd gwledydd eraill.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd diddorol sy'n cynnig cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu medrau. Maent wedi gweithio'n ddiwyd i addasu'r ystafell dros dro ar gyfer anghenion penodol y plant. Mae ychydig o gyfleoedd perthnasol i arddangos gwaith plant er mwyn dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ei adnoddau'n dda i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac maent yn hygyrch i'r holl blant. Mae hyn yn annog plant i dderbyn cyfrifoldeb am dacluso offer i'r man priodol, yn annibynnol. Mae gan y lleoliad fynediad parhaus i'r ardal allanol ac mae'r ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau diddorol a pherthnasol i'r plant yno. Defnyddir ystod eang o adnoddau offer corfforol yn greadigol O ganlyniad, mae'r plant yn mwynhau datblygu ystod eang o fedrau penodol. Mae ansawdd yr adeilad yn addas, yn cael ei gynnal yn dda ac yn ddiogel.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl staff a'r rhieni. Mae'n llywio gweithgarwch y lleoliad yn fedrus ac yn rhoi synnwyr cryf o bwrpas i waith ymarferwyr. Er bod y lleoliad yn cwrdd mewn safle dros dro ar hyn o bryd, mae'n darparu cyfeiriad strategol cadarnhaol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safon yr addysgu, ansawdd y cynllunio a'r asesu yn ogystal ag arferion dyddiol y lleoliad. Mae'r weledigaeth hon yn cynnwys blaengynllunio medrus ar gyfer symud i safle newydd.

Mae'r arweinydd yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r holl ymarferwyr i greu ethos gofalgar, sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir mewn disgrifiadau swydd pwrpasol. Mae ymarferwyr profiadol yn cynorthwyo'r arweinydd yn effeithiol trwy gymryd rôl arweiniol mewn meysydd penodol, fel datblygu gweithdrefnau asesu a medrau Cymraeg cydweithwyr. Mae hyn yn sicrhau cyfarwyddyd cadarn ar gyfer staff newydd.

Mae'r arweinydd wedi datblygu trefniadau trylwyr a buddiol iawn er mwyn gwerthuso a rheoli perfformiad yr holl ymarferwyr. Yn dilyn arsylwadau ffurfiol gan yr arweinydd ac aelod o'r pwyllgor rheoli, rhoddir adborth defnyddiol i'r ymarferwyr gan roi ystyriaeth werthfawr i'r addysgu. Mae hyn, ynghyd â'r cyfarfodydd staff rheolaidd, yn datblygu dealltwriaeth gadarn ymarferwyr o'r meysydd sydd angen eu gwella ac yn arwain at drefnu hyfforddiant pwrpasol.

Mae'r arweinydd yn darparu cymorth defnyddiol ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen drwy fonitro a chynghori ynglŷn â chynllunio. Mae arweinwyr yn ymwybodol o flaenoriaethau cenedlaethol ac yn canolbwyntio'n dda ar y ffyrdd gorau i ddatblygu medrau plant yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad. Maent yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn effeithiol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol. Maent yn gefnogol iawn ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol trwy gynnal safonau cadarn, gosod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a monitro gwariant yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd wedi datblygu diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu sydd bellach yn rhan annatod o waith y lleoliad. Gyda chydweithrediad parod ei chydweithwyr, mae wedi sefydlu a datblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer gwerthuso a monitro safonau plant yn ogystal â'r ddarpariaeth. Mae'r trefniadau hyn yn seiliedig ar amserlen monitro gynhwysol sy'n ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol gan ystod o randdeiliaid. Er enghraifft, mae'r arweinydd yn casglu barn rhieni yn effeithiol ac yn dadansoddi eu hymatebion yn ofalus wrth lunio'r adroddiad hunanarfarnu. Mae ymarferwyr yn herio eu hunain a'u cydweithwyr yn rheolaidd yn sgil ymrwymiad tryloyw a chadarnhaol i welliant parhaus. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn adnabod y lleoliad yn dda iawn, yn wybodus am ei chryfderau a'r meysydd i'w datblygu, ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol. Mae gan gyfarfodydd staff ffocws clir a gonest ar y meysydd sydd angen eu datblygu.

Mae ymarferwyr yn trafod deilliannau monitro yn rheolaidd er mwyn cytuno ar flaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae hyn yn cynnwys gwella defnydd y plant o'r Gymraeg. Mae'r cynllun yn diffinio targedau a chamau gweithredu perthnasol a mesuradwy, yn ogystal â therfynau amser ac ystyriaethau ariannu priodol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n gryf ar les y plant a darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cysylltu targedau'r cynllun â safonau plant yn ddigon manwl.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi sefydlu ystod eang o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd y profiadau dysgu a lles plant. Mae'r rheini yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r ymarferwr er mwyn trafod cynnydd neu unrhyw ofidion. Mae hyn yn sicrhau bod y berthynas â rhieni yn un buddiol a'u bod yn rhan bwysig o wead y lleoliad.

Mae llawlyfr y lleoliad yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni er mwyn paratoi eu plant yn dda ar gyfer cychwyn yno. Yn ogystal, mae cylchlythyrau cynhwysfawr yn cael eu dosbarthu'n rheolaidd er mwyn hysbysu rhieni'n am waith y lleoliad. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau gwerthfawr i'r plant trwy ymweliadau rheolaidd â'r gymuned. Er enghraifft, mae'r plant yn siarad yn frwdfrydig am eu teithiau i'r orsaf drên ac i Gastell Conwy, yn ogystal ag ymweliad i'r siop leol i brynu cynhwysion ar gyfer creu pitsa.

Mae'r lleoliad yn elwa o'r gefnogaeth bositif a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau yn gymorth i ddatblygu'r lleoliad ac wedi cyfrannu at godi safonau a sefydlu arferion addysgu cadarn. Mae'r lleoliad yn rhannu ei arfer dda o gynllunio gweithgareddau ffocws, asesu cyflawniad plant a rhaeadru syniadau yn dilyn hyfforddiant, gyda lleoliadau eraill.

Mae gan y lleoliad gysylltiad gwerthfawr a chynhyrchiol gyda'r ysgol y mae'n ei bwydo. Mae'r trefniadau effeithiol sydd wedi eu sefydlu ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu yn sicrhau bod yr holl blant yn trosglwyddo'n llyfn i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r arweinydd hefyd yn trafod cynlluniau gwaith yn anffurfiol gyda'r athrawes feithrin. O ganlyniad, mae dilyniad a pharhad wrth ddatblygu medrau'r plant sy'n dod i'r lleoliad ar ôl mynychu sesiwn boreol yn yr ysgol.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn rhannu gwybodaeth am eu hanghenion ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gefnogaeth bellach arnynt.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r arweinydd yn rheoli’r holl adnoddau a’r cyllid yn effeithlon. Mae wedi sicrhau bod gan y lleoliad lefel briodol o staff â chymwysterau addas i addysgu’r cwricwlwm yn effeithiol. Er mwyn trefnu hyfforddiant defnyddiol i’r ymarferwyr, mae’r arweinydd yn gwneud defnydd llwyddiannus o ddeilliannau arsylwi. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiadau diweddar wrth adeiladu ar eu medrau a’u hymarfer. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar ddatblygu medrau addysgu rhifedd yn cael effaith gadarnhaol ar y plant wrth iddynt adnabod grwpiau a deall gwerth rhifau.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod eu cryfderau a’u harbenigedd yn dda ac yn cydweithio’n effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant er mwyn gwella eu cyflawniadau.

Mae gan y lleoliad ystod briodol o adnoddau, tu fewn a thu allan i’r adeilad, sydd yn bwrpasol o fewn cyrraedd i’r plant. Maent yn cael eu defnyddio’n llwyddiannus er mwyn hyrwyddo amcanion y Cyfnod Sylfaen a datblygu eu medrau annibynnol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod ganddynt drosolwg cadarn o gyllideb y lleoliad. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad ac yn gwerthuso'r gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn parhau i fod yn gynaliadwy ac er mwyn cefnogi’r addysgu.

O ystyried ansawdd yr addysgu, gofal a chyfarwyddyd, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Ms Vanessa Bowen | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |